

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru
The Federation of Museums and Art Galleries of Wales

# SBOTOLAU ar Amgueddfeydd 2020

Adroddiad ar gyfer yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru



**Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020**
Ymchwil a gefnogir gan yr Is-adran Ddiwylliant, Llywodraeth Cymru

Cynhyrchwyd gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru a Phrifysgol Caerdydd

**Diolchiadau**
Mae pob parti yn cydnabod y gwaith sydd ynghlwm wrth gasglu'r data hwn ac yn ddiolchgar i'r holl amgueddfeydd a gyfrannodd at yr arolwg hwn.

Clawr Blaen: Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon. © Hawlfraint y Goron

Tudalen hon:  Y storïwr Phil Okwedy yn hyfforddi storïwyr ifanc fel rhan o weithgareddau Gaeaf Llawn Lles gan Glwb Adrodd Straeon 'Casglu Casgliadau' yn Amgueddfa Dinbych-y-pysgod © Drwy garedigrwydd Amgueddfa Dinbych-y-pysgod

Tu mewn i'r dudalen gefn: Gweithgaredd yn Amgueddfa Parc Howard, Llanelli © Drwy garedigrwydd Amgueddfa Sir Gaerfyrddin

# 1. Cyflwyniad

Ar ddiwedd haf 2019, rhoddodd Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru grant i Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, i gynnal pumed arolwg manwl Sbotolau ar Amgueddfeydd Cymru. Cwblhawyd yr arolygon blaenorol yn 2015, 2011, 2006 a 2002.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg 2020 ac yn archwilio data tueddiadau ers 2002. Tynnwyd y data o'r flwyddyn ariannol flaenorol, yn yr achos hwn 2018/2019.

Lansiwyd yr arolwg fis Mawrth 2020 ychydig ddyddiau cyn y clo coronafeirws cyntaf. Er gwaethaf yr anawsterau gweithredol a achoswyd gan y pandemig, cyflwynodd yr amgueddfeydd eu hymatebion pan allent ddefnyddio eu cyfleusterau.

Diolch i'r holl amgueddfeydd a gwblhaodd yr arolwg.

SBOTOLAU

# 2. Crynodeb

## Cyfradd ymateb

- Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru yn Sbotolau 2011 bod tua 160 o sefydliadau yng Nghymru y gellid eu galw'n amgueddfa neu sy'n galw eu hunain yn amgueddfa.
- Yn 2020, ymatebodd 85 o amgueddfeydd i'r arolwg gan roi cyfradd dychwelyd o 53% sydd ychydig yn uwch na nifer yr ymatebwyr yn 2015.
- Y gyfradd ddychwelyd ar gyfer amgueddfeydd Achrededig neu amgueddfeydd a ddosbarthwyd fel "Gweithio tuag at Achrediad" oedd 78% neu 83 o'r 106 o amgueddfeydd Achrededig yn ymateb.
- Nid yw o leiaf 40 o'r 160 o amgueddfeydd erioed wedi cyflwyno data i arolygon Sbotolau.
- Mae tueddiadau yn seiliedig ar ymatebion gan grŵp craidd o 50 o amgueddfeydd sydd wedi ymateb i bob arolwg blaenorol.

## Safonau Ymarfer[1]

- Mae'r safonau wedi gostwng ar y cyfan ers 2015. Mae rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod y gostyngiad i'w briodoli i'r toriadau yn y sector cyhoeddus.
- Mae'r rhan fwyaf o'r amgueddfeydd yn dal i ragori ar y safonau sy'n ofynnol gan Gynllun Achredu Amgueddfeydd y DU.
- Mae'r Safonau mewn Darparu adeiladau addas (cynnal a chadw a rheoli, F1) a Datblygu Cynulleidfa a Marchnata (F9) wedi gwella ers 2015.
- Roedd y ddarpariaeth Dysgu Anffurfiol (F11) a Dysgu Ffurfiol (F12) wedi gostwng.

## Llwyddiannau a heriau

- Ers 2015 mae gwaith ailddatblygu mawr a ariannwyd gan gronfa'r loteri wedi digwydd yn Aberhonddu, Abertawe, Penmaenmawr, Pentywyn a Threffynnon.
- Llwyddodd Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan i ennill gwobr y Gronfa Gelf am Amgueddfa'r Flwyddyn yn 2019.
- Amgueddfa y Fenni oedd enillydd Gwobr Gymunedol Rhwydwaith Hanes Menywod yn 2017.
- Enillodd Parc Treftadaeth Cwm Rhondda Wobr Sandford gan yr Ymddiriedolaeth Addysg Treftadaeth, i gydnabod eu rhaglen addysg ragorol.
- Amgueddfa Caerdydd oedd enillydd Gwobr Cymdeithas yr Amgueddfeydd 'Amgueddfeydd yn Newid Bywydau' yn 2019 ymhlith cyfres o wobrau arloesol o safon.
- Materion cyllideb a chapasiti oedd yr heriau yn bennaf. Mae'r amgueddfeydd a redwyd gan Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan ac Ymddiriedolaeth Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli wedi cau yn barhaol.

## Oriau agor yr amgueddfeydd

- Roedd 56% (48) o'r ymatebwyr ar agor drwy'r flwyddyn.
- Roedd 36% (31) o'r ymatebwyr ar agor yn dymhorol.

[1] Y meini prawf ar gyfer asesu yw nifer o "Ddatganiadau Ystod" ansoddol y mae amgueddfeydd yn eu dewis sy'n cyd-fynd agosaf â'u sefyllfa.

## Cynulleidfaoedd

- Bu 4,688,055 o ymweliadau â'r holl amgueddfeydd a ymatebodd yng Nghymru yn 2019. Roedd hyn yn gynnydd sylweddol o 22.9% o gymharu â ffigur 2015 o 3.8 miliwn.
- Bu cynnydd o 31.2% yn yr ymweliadau ag amgueddfeydd lleol (heblaw am Amgueddfa Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) yn ystod yr un cyfnod.

## Effaith economaidd


- Effaith economaidd ymweliadau ag amgueddfeydd yng Nghymru yn 2020 oedd £134,128,106.
- Cyfrannodd yr amgueddfa leiaf gydag ond 200 o ymwelwyr bron i £4,000, tra bod y grŵp o amgueddfeydd Cenedlaethol wedi cyfrannu £83 miliwn. Cyfrannodd safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn seiliedig ar wariant ymwelwyr yn lleol o leiaf £17 miliwn i economi Cymru.

## Ymgysylltu ar-lein

- Mae gan 95% o amgueddfeydd eu gwefannau eu hunain, ac mae 87% yn defnyddio llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol.
- Yn ôl data 2020, bu 3,276,836 o ymweliadau â gwefannau'r amgueddfeydd. Mae hyn yn ostyngiad o 15% o'r data yn 2015. Fodd bynnag, roedd tanysgrifwyr/dilynwyr y cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu o 236,293 i 591,808, sy'n gynnydd o 150% yn y rhai sy'n ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

## Ymgysylltu addysgol

- Mae'r amgueddfeydd yn darparu 32,957 o sesiynau a gweithgareddau dysgu gan ddenu 947,560 o gyfranogwyr.
- Mae amgueddfeydd Cymru yn cynnal 2,780 o sesiynau allgymorth gyda 121,381 o gyfranogwyr.









## Llesiant

- Mae 52% o Amgueddfeydd Cymru yn cynnig gweithgareddau cyfeillgar i ddementia.
- Dim ond 20% o amgueddfeydd Cymru y gofynnir iddynt gyflwyno data i'w hawdurdod lleol/corff cyhoeddus fel rhan o adroddiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae 27% o amgueddfeydd yn cymryd rhan yn y rhaglen Cyfuno.

## Amgueddfeydd a chydraddoldeb

- Mae bron pob amgueddfa yn cynnal rhaglenni cynhwysol megis arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n cynrychioli amrywiaeth Cymru. Yn fras, mae hyn yn cynnwys gwahanol fathau o bobl o ran oedran, LGBTQI, defnyddwyr a dysgwyr y Gymraeg, grwpiau menywod, crefyddau a grwpiau credo amrywiol, anableddau, cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

## Casgliad i'r Genedl

- Mae'r amgueddfeydd yng Nghymru yn gofalu am 6,275,185 o wrthrychau.
- Mae nifer cynyddol o amgueddfeydd, 61%, yn dweud bod eu storfeydd yn orlawn. Mae 27% arall o amgueddfeydd â storfeydd fydd yn llawn erbyn 2026.
- Dim ond 32% o amgueddfeydd sy'n dweud bod cyfran sylweddol o'u casgliad ar gael ar-lein.
- Mae'r amgueddfeydd wedi derbyn 12,084 o eitemau naill ai drwy eu prynu neu drwy eu derbyn fel rhodd, sy'n ostyngiad bach ers 2015.

## Gweithrediadau ariannol

Mae dros hanner amgueddfeydd Cymru yn caniatáu mynediad am ddim.

- Cyfanswm cyllidebau blynyddol yr holl amgueddfeydd a ymatebodd yw £40 miliwn a mwy.

## Gwirfoddolwyr

- Yn 2020 roedd 4,235 o wirfoddolwyr yn gweithio mewn amgueddfeydd, cynnydd o 6% ers Sbotolau 2015.
- Mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu 404,676 o oriau, cynnydd o 128% o 2015.

## Gweithlu

- Mae 5,841 o bobl yn gweithio mewn amgueddfeydd yng Nghymru, ychydig yn llai nag yn 2015.
- Mae 1,606 yn staff cyflogedig mewn amgueddfeydd sy'n cyfateb i 991 o Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn.




## Amgueddfeydd Lleol ac Amgueddfa Cymru

- Dywedodd 59% o'r amgueddfeydd lleol a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan Amgueddfa Cymru.
- Amgueddfeydd awdurdodau lleol neu amgueddfeydd annibynnol bach sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio'r gwasanaethau hyn.

# 3. Dull a phroses yr arolwg

Mae'r siartiau a'r tablau isod yn dilyn y fformat sefydledig a ddefnyddiwyd yn Adroddiad Sbotolau 2015 i'w gwneud yn hawdd cymharu. Mae'r holl ddata o arolygon blaenorol yn y fformat a ddarparwyd gan ymgynghorwyr blaenorol.

Mae cymaryddion â gwybodaeth hanesyddol yn seiliedig ar y setiau data a gasglwyd mewn arolygon blaenorol. Lle caiff cyfanswm yr ymatebion yn 2020 (85) eu cymharu ag ymatebion o 2015 (80), gwerth cymharol gyfyngedig sydd i'r cyfansymiau cyffredinol (megis nifer y staff sy'n gweithio yn y sector). Gellir cymharu'r tueddiadau meincnodi (Datganiadau Ystod) gan fod atebion 2020 yn rhoi darlun sy'n cynrychioli'r sefyllfa.

At ddibenion dadansoddi, defnyddiwyd grŵp 'craidd' o amgueddfeydd ar gyfer data meintiol a chronnol gan fod y grŵp hwn yn cynrychioli'r amgueddfeydd hynny sydd wedi ymateb yn gyson drwy'r broses arolwg.

Yn yr un modd â Sbotolau 2015, mae'r arolwg hwn yn adeiladu ar ddata a gasglwyd yn 2011 ac yn 2006 yn ogystal â'r ymarferiad Mapio Amgueddfeydd 2002.

Cynhaliwyd yr arolwg hwn ar-lein rhwng Mawrth 2020 ac Ebrill 2021.

Mae'r data ar Sbotolau 2020 ar gael mewn dwy ffordd:

- Adroddiad printiedig – ar gael i'w lawrlwytho o wefan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru ac o wefan Llywodraeth Cymru
- Taenlen Excel – ar gael ar gais i Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru

Mae'r wybodaeth a ddarperir gan amgueddfeydd yn seiliedig ar bedwar math gwahanol o gwestiwn:

- Cwestiynau Ie/Na
- Cwestiynau tystiolaeth niferoedd
- Cwestiynau testun rhydd
- Cwestiynau hunanasesu (Datganiadau Ystod) i fesur lefelau ymarfer.

[2] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-08/spotolau-ar-amgueddfeydd-2015.pdf

# 4. Sampl ac ymateb

Roedd 106 o amgueddfeydd Achrededig neu yn Gweithio tuag at Achredu, yng Nghymru yn 2020. Gall sefydliadau eraill ddisgrifio eu hunain fel amgueddfeydd, gan nad yw'r term wedi'i warchod. Yng Nghymru mae tua 160 o sefydliadau yn defnyddio'r term amgueddfa, a rhoddwyd cyfle i bawb allai gael eu hystyried yn amgueddfa ymateb i'r arolwg hwn.

- Y broses gydnabod ffurfiol a'r term gwarchodedig ar gyfer amgueddfeydd yw 'Amgueddfa Achrededig': mae'r term hwn yn disgrifio amgueddfa sy'n cyfateb i safonau atebolrwydd, llywodraethu a gwasanaeth y diwydiant yn y DU.
- Mae 83 o'r 85 o ymatebwyr yn amgueddfeydd achrededig, sy'n cynrychioli 78% o amgueddfeydd achrededig Cymru a 53% o'r 160 o sefydliadau sy'n disgrifio eu hunain yn amgueddfeydd.
- O'r 160 amgueddfeydd hynny, nid yw 40 yn bodloni'r meini prawf gweithio tuag at achredu, ac nid ydynt erioed wedi cymryd rhan yn Sbotolau.

Yn y dyfodol efallai y byddai'n fwy cywir i ystyried y data o ran yr 120 o amgueddfeydd yng Nghymru allai gyrraedd y safon Achredu a bodloni diffiniad y DU o amgueddfa yn llawn.

- Dim ond 2 amgueddfa heb eu hachredu wnaeth ymateb. Mae un yn rhan o wasanaeth llywodraeth leol, a'r llall yn amgueddfa gwasanaeth cyhoeddus arbenigol. Mae'r ddwy yn gymwys ar gyfer y statws "Gweithio tuag at Achrediad".
- Nid oedd pob amgueddfa wedi ateb pob cwestiwn.
- Mae'r grŵp craidd yn cyfeirio at yr amgueddfeydd sydd wedi ymateb i bob un o'r pedwar arolwg Sbotolau.
- Mae'r grŵp craidd wedi gostwng o 73 yn 2006 i 51 yn 2020.
- Mae'r data sy'n berthnasol i gyllidebau yn ddata dangosol gan fod gwahanol fethodoleg cyfrifyddu yn cael ei ddefnyddio mewn gwahanol amgueddfeydd.
- Ar gyfer sefydliadau aml-safle lle mae gwasanaeth amgueddfa yn darparu cymorth canolog i nifer o amgueddfeydd, mae'r ymatebion wedi'u crynhoi.

# 5. Categorïau o amgueddfeydd

Defnyddir tri prif gategori o amgueddfeydd ar gyfer dadansoddi yn yr adroddiad drwyddo draw: Math, Maint a Grŵp Craidd.

- Pennir y **math o amgueddfa** yn ôl y ffynhonnell ariannu a'r model llywodraethu.
- Pennir **maint yr amgueddfa** yn ôl y ffigurau o ymweliadau blynyddol. Mae amgueddfeydd mawr yn denu 50,000 a mwy o ymwelwyr, mae amgueddfeydd maint canolig yn denu rhwng 10,000 a 50,000 o ymwelwyr, ac ar gyfartaledd mae amgueddfeydd bach yn denu llai na 10,000 o ymwelwyr.
- **Y grŵp craidd** – yr amgueddfeydd a ymatebodd i'r arolwg yn 2002, 2006, 2011, 2015 a 2020.

### Awdur a churadur yr amgueddfa Mark Lewis gyda pherfformwyr *For As Long As Forever Is* yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod

Dywedodd Janet Lewis o Gyfeillion Amgueddfa Dinbych-y-pysgod, "Diolch, Mark, am adrodd hanes bywyd a gwaith Dylan Thomas â'r un cariad at eiriau ag oedd gan Dylan ei hun, ac i'r holl berfformwyr gwych am ddod â'r geiriau hynny yn fyw mor odidog," gydag un aelod o'r gynulleidfa yn dweud bod y perfformiad yn "well na'r BBC!".

*Llun drwy garedigrwydd Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod ©*



# 6. Proffil yr ymatebwyr


## Math o Amgueddfa

Mae'r ymatebwyr wedi'u rhannu yn bedwar math o amgueddfa yn dibynnu ar eu trefniadau ariannu a llywodraethu.

- **Amgueddfeydd Cenedlaethol** a ariennir gan Lywodraeth Cymru
- **Amgueddfeydd awdurdodau lleol** a ariennir ac a redir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol
- **Amgueddfeydd annibynnol** a ariennir ac a redir yn annibynnol ar lywodraeth leol neu genedlaethol, ond all fod yn derbyn rhywfaint o gymorth drwy grantiau neu gyngor gan y llywodraeth
- Eiddo'r **Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

Mae'r grŵp craidd yn dal yn cynrychioli yn fras y math o ymatebwyr yn ei gyfanrwydd ond efallai y bydd angen ailystyried hyn ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Gallai'r arolwg nesaf edrych ar grŵp craidd sydd wedi ymateb yn y 3 arolwg diwethaf (2011, 2015 a 2020) fel bod y data yn rhychwantu cyfnod o rhyw 12 mlynedd, fyddai'n dal yn ddadansoddiad ystyrlon o dueddiadau.

*Ffig 1: Ymatebion yn ôl y Math o Amgueddfa*





## Maint yr Amgueddfa

Mae amgueddfeydd yng Nghymru yn amrywio o amgueddfeydd cenedlaethol mawr (Amgueddfa Cymru) i amgueddfeydd cymunedol bach. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae maint yr amgueddfeydd wedi'i bennu yn ôl y nifer blynyddol o ymweliadau ar gyfartaledd a ddenwyd ganddynt rhwng 2015 a 2019.

- **Mawr**: Mae 24 o amgueddfeydd yn denu, ar gyfartaledd, dros 50,000 o ymweliadau y flwyddyn
- **Canolig**: Mae 27 o amgueddfeydd canolig eu maint yn denu rhwng 10,000 a 50,000 o ymweliadau ar gyfartaledd
- **Bach**: Mae 34 o amgueddfeydd bach yn denu llai na 10,000 o ymweliadau bob blwyddyn ar gyfartaledd

*Ffig 2: Ymatebion yn ôl Maint yr Amgueddfa*




## Achredu

Mae achredu yn gynllun gwirfoddol a weinyddir yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, sy'n agored i unrhyw sefydliad cymwys sy'n bodloni'r safonau gofynnol. Mae'r cynllun y DU yn pennu safonau cenedlaethol cytûn ar gyfer amgueddfeydd ar draws tri maes allweddol, sef iechyd y

sefydliad, y casgliadau, a'r defnyddwyr a'u profiadau. Mae'r cynllun yn gymorth i amgueddfeydd ganolbwyntio ar safonau, clustnodi meysydd i'w gwella, a datblygu eu cydnerthedd drwy flaengynllunio. Anogir sefydliadau sydd eisoes yn casglu, yn dehongli ac yn gwarchod arteffactau neu sbesimenau er budd y cyhoedd i gefnogi'r cynllun.

- Yn 2015 dim ond 3 amgueddfa heb eu hachredu a ymatebodd, felly rhoddwyd y gorau i wneud cymariaethau rhwng amgueddfeydd Achrededig a'r rhai heb eu Hachredu gan nad oedd y cymariaethau yn ystadegol ddilys.
- Yn 2020 dim ond 2 amgueddfa heb eu hachredu a ymatebodd, felly nid yw'r cymariaethau yn ystadegol ddilys.
- Argymhellir bod unrhyw Sbotolau yn y dyfodol ond yn cael ei ddosbarthu i amgueddfeydd Achrededig a'r rhai sy'n Gweithio tuag at Achrededig er mwyn cael ymateb mwy penodol sydd wedi'i dargedu.

### Merched Sir Fynwy yn Gwneud Newid, Amgueddfa'r Fenni (Enillydd Gwobr Gymunedol Mis Hanes Menywod 2017)

Defnyddiodd y prosiect gasgliadau a straeon lleol i ddangos a deall gwerth ymgyrchu gan fenywod. Archwiliwyd y cyfraniad a wnaed gan fenywod lleol i'r ymgyrch dros gael pleidlais i ferched, i ymdrech y Rhyfel, amaethyddiaeth, a'r Mudiad Heddwch. Curadwyd yr arddangosfa gan grŵp o wirfoddolwyr sy'n pontio'r cenedlaethau – un o raddedigion Hanes yn ddiweddar, dau fyfyriwr prifysgol ac aelod o'r gymuned. Cydweithiwyd â'r sefydliadau yn y gymuned. Ein nod oedd annog, yn enwedig merched ifanc, i gymryd rhan mewn ymgyrchu, a'u hysbrydoli i weithredu heddiw.

*Llun drwy garedigrwydd Treftadaeth Monlife ©*



# 7. Safonau Ymarfer Amgueddfeydd – Datganiadau ystod


Mae Sbotolau yn archwilio pa mor dda y mae amgueddfeydd yn ei wneud ar draws 13 o feysydd gwaith, drwy ddefnyddio Datganiadau Ystod hunanasesu. Mae'r Datganiadau Ystod yn cymryd meysydd gwaith sy'n dangos sut mae amgueddfeydd yn gwasanaethu eu cymunedau, yn rheoli eu casgliadau, ac yn llywodraethu eu hunain. Mae'r rhain yn cael eu rhannu yn wahanol lefelau o weithgaredd. Mae pob datganiad yn mynd o 1 i 6, lle mae 1 yn ychydig iawn o waith neu ddim o gwbl a 6 yn cyfateb i arfer gorau. Mae Datganiadau Ystod yn galluogi amgueddfeydd i nodi lle maent yn gwneud yn dda, a lle mae angen iddynt ddatblygu ymhellach. Dylai amgueddfeydd anelu at gyrraedd y lefel uchaf sydd fwyaf priodol ar gyfer maint a graddfa eu sefydliad.

### Y Datganiadau Ystod


| | |
|---|---|
| F9 | Datblygu Cynulleidfa a lMarchnata |
| F12 | Dysgu Ffurfiol |
| F11 | Dysgu Anffurfiol |
| F10 | Mynediad – Arddangos |
| F13 | Mynediad – Anabledd |
| F8 | Datblygu Staff a Gwirfoddolwyr |
| F1 | Darparu Adeilad Addas |
| F2 | Monitro Amgylcheddol |
| F3 | Rheolaeth Amgylcheddol |
| F4 | Storio a Chadw Tŷ |
| F5 | Arddangos a Chadw Tŷ |
| F6 | Dogfennaeth |
| F7 | Polisi a Chynllunio |

- Bu tueddiad cyffredinol i'r sgoriau fod wedi gostwng ers 2015.
- Mae terfyn amser ar nifer o'r datganiadau ystod felly er enghraifft "a ydych wedi buddsoddi mewn arddangosiadau newydd yn y tair blynedd diwethaf".
- Oherwydd effaith y mesurau cyni, bydd y sgoriau o bosibl wedi gostwng. Er enghraifft, er bod yr amgueddfa wedi buddsoddi mewn arddangosfeydd newydd yn flaenorol a bod y deunydd esboniadol yn dal yn ddeniadol ac yn berthnasol, ond na fu unrhyw fuddsod-diad diweddar; mae'n bosibl bod arolwg wedi'i gynnal a'i fod wedi'i weithredu, ond mae wedi dod i ben erbyn hyn; os nad yw Swyddog Dysg wedi'i benodi yn y cyfamser i'r swydd sydd bellach yn wag, bydd yr amgueddfa honno yn gostwng gradd.


*Ffigur 3: Lefelau Ymarfer Cyfartalog ers 2002 ar draws pob amgueddfa*





*Ffigur 4: Lefelau ymarfer cyfartalog ers 2002 ar draws amgueddfeydd craidd*



*Ffigur 5: Lefelau gwasanaeth ar gyfartaledd yn ôl maint amgueddfa*




*Ffigur 6: Lefelau gwasanaeth ar gyfartaledd yn ôl math o amgueddfa*



# 8. Llwyddiannau a Heriau ers 2015

Gwahoddwyd yr amgueddfeydd i ddatgan beth oedd eu prif lwyddiannau ers 2015 yn eu barn hwy a pha heriau y byddent yn eu hwynebu.

## Llwyddiannau

Roedd pob math o amgueddfa wedi nodi arddangosfeydd ymhlith eu llwyddiannau. Ymhlith yr uchafbwyntiau penodol a grybwyllwyd oedd: Cynllun Partneriaeth Rhannu Trysorau Llywodraeth Cymru; partneriaeth Achub Trysor, Dweud Stori rhwng Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri; a Phrosiect Cwch-U y Rhyfel Mawr gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Roedd y rhain i gyd ac eraill yn rhoi cyfleoedd ariannu ychwanegol i'r amgueddfeydd, yn helpu i ffurfio partneriaethau gyda grwpiau cymunedol, ac yn datblygu cynulleidfaoedd newydd.

- Roedd y cynnydd cyffredinol yn nifer yr ymwelwyr i'w briodoli i'r amrywiaeth o arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau y bu'r rhan fwyaf o amgueddfeydd yn cymryd rhan ynddynt. Ariannwyd llawer o'r rhai a enwyd gan

### Victoria Rogers, Enillydd Gwobr Cymdeithas yr Amgueddfeydd am Wneud Newid Radical

Cyrhaeddodd Amgueddfa Caerdydd restr fer dwy wobr Cymdeithas yr Amgueddfeydd yn 2019 - Gwobr yr Amgueddfa Fach Orau am eu rhaglen ystyriol o ddementia, a Gwobr am Wneud Newid Radical i'w Rheolwr Victoria Rogers. Dywedodd y beirniaid bod Amgueddfa Caerdydd yn *"...lle mor agored, sy'n seiliedig ar y gymuned"* ac roedd eu rhaglen ystyriol o ddementia yn *"hynod o drawiadol"*. Canmolwyd yr enillydd Victoria am *"roi'r effaith gymdeithasol wrth wraidd popeth a wneir ganddi. [...]. Mae hi wedi newid proffil ymwelwyr yr amgueddfa drwy ymgysylltu â chynulleidfaoedd mwy amrywiol a gweithio gyda phobl yn yr ardal leol i archwilio agweddau heriol ar hanes y ddinas"*.

*Llun drwy garedigrwydd Cymdeithas yr Amgueddfeydd ©*



ffynonellau allanol oedd yn amrywio o Gronfa Dreftadaeth y Loteri, cyllid Ewropeaidd, Sefydliad Esmée Fairbairn i'r V&A/Cronfa Gelf.

- Roedd themâu'r arddangosfeydd yn cynnwys coffáu aberth y Rhyfel Byd Cyntaf, trysorau hynafol a ddarganfuwyd gan ddatgelwyr a ffermwyr, y cysylltiadau Cymreig â chaethwasiaeth, a Chymru a Siapan.
- Cafwyd ailddatblygiadau mawr a ariannwyd gan y loteri yn Aberhonddu, Abertawe, Penmaenmawr, Pentywyn a Threffynnon.
- Roedd sawl amgueddfa yn falch o lwyddo i gael Achrediad sy'n cydnabod eu hymrwymiad i ofalu am eu casgliadau a'u rheoli, cydnerthedd eu sefydliad drwy flaengynllunio, ac ymdrechu'n frwd i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.
- Roedd nifer o amgueddfeydd annibynnol a reolir yn wirfoddol wedi dathlu perchnogaeth o'u hadeiladau amgueddfa drwy'r Cynllun Trosglwyddo Asedau Cyfalaf, gan gynnwys Amgueddfa Tecstilau y Drenewydd, a Llety'r Barnwr Llanandras.
- Disgrifiwyd y noson o berfformio gwaith Dylan Thomas gan Amgueddfa Dinbych-y-pysgod gan aelodau'r gynulleidfa fel perfformiad oedd yn "rhagori ar un y BBC".
- Cafodd y Ganolfan Eifftaidd "Nifer o Wobrau", gan gynnwys Enillydd gwobr twristiaeth Bywyd Abertawe 2018 a 2019, ac Enillydd Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol 2018.
- Llwyddodd Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan i ennill gwobr y Gronfa Gelf am Amgueddfa'r Flwyddyn yn 2019.
- Amgueddfa'r Fenni oedd enillydd Gwobr Gymunedol Rhwydwaith Hanes Menywod 2017.
- Parc Treftadaeth Cwm Rhondda enillodd Gwobr Sandford gan yr Ymddiriedolaeth Addysg Treftadaeth, i gydnabod eu rhaglen addysg ragorol.
- Roedd Amgueddfa Caerdydd wedi ennill Gwobr 'Amgueddfeydd yn Newid Bywydau' Cymdeithas yr Amgueddfeydd 2019 ymhlith cyfres o wobrau arloesol o safon.
- Cafodd Amgueddfa Gelf Fodern sydd newydd ei hachredu, MOMA, ym Machynlleth ei chydnabod yn 2019 gan bapur y Guardian fel un o'r 10 oriel gelf orau yng nghefn gwlad.

## Heriau

Roedd materion cyni a diffyg adnoddau yn heriau sylweddol. Fodd bynnag, casglwyd yr ymatebion i Sbotolau yn 2020 a hanner cyntaf 2021, yn ystod y pandemig COVID. Felly, y prif bryder i'r mwyafrif oedd adferiad ar ôl y pandemig a sut i oroesi yn sgîl cynulleidfaoedd sy'n gostwng, recriwtio gwirfoddolwyr newydd, ymdopi â chyllidebau tynnach fyth, a thoriadau yn y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod amgueddfeydd wedi datblygu ac wedi tyfu cynulleidfaoedd newydd er gwaethaf y mesurau llymder oedd ar waith, ac wedi defnyddio ffrydiau ariannu arloesol i wneud hynny. Ysgubwyd yr enillion hyn i ffwrdd yn ystod y pandemig ac i lawer o amgueddfeydd. "Cynyddu ein sylfaen ymwelwyr eto ar ôl cyfnod hir o fod ar gau ac yna agor ar adegau cyfyngedig iawn," oedd y pryderon allweddol. Fodd bynnag, mae'r amgueddfeydd sy'n cael eu rhedeg gan Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan ac Ymddiriedolaeth Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli wedi cau'n barhaol.

# 9 . Oriau agor yr amgueddfa

Gofynnwyd i'r amgueddfeydd roi manylion am eu horiau agor arferol.

- Roedd 56% (48) o'r ymatebwyr ar agor drwy'r flwyddyn
- Roedd 36% (31) o'r ymatebwyr ar agor yn dymhorol
- Dim ond drwy apwyntiad yr oedd 3.5% (3) o'r ymatebwyr ar agor
- Roedd 3.5% (3) o'r ymatebwyr ar gau ar gyfer gwaith atgyweirio neu ailddatblygu

### Yr Amgueddfa Cyflymder ym Mhentywyn

Mae'r Amgueddfa Cyflymder newydd a ddyluniwyd yn adeilad ynni goddefol ac y dechreuwyd ar y gwaith adeiladu yn 2019, yn cael ei rheoli gan Gyngor Sir Caerfyrddin fel rhan o brosiect £7.6m Denu Twristiaid i Bentywyn fydd yn agor yn 2023. Mae'r amgueddfa newydd wedi'i lleoli ar safle sy'n cynnwys eco-hostel a chaffi, ardal chwarae a digwyddiadau, llefydd parcio cartrefi modur, llety hygyrch a thoiledau Llefydd Newid.

*Llun drwy garedigrwydd Cyngor Sir Caerfyrddin ©*



# 10. Cynulleidfaoedd


Er mwyn bodloni safonau a disgwyliadau defnyddwyr presennol, rhaid i amgueddfeydd fod yn sefydliadau sy'n hygyrch ac yn groesawgar. Dylent fod yn deall eu defnyddwyr ac yn bodloni anghenion ystod o ddefnyddwyr sydd â gofynion gwahanol. Mae ymgysylltu â phawb yn allweddol, a thrwy weithio gyda chymunedau, lleihau rhwystrau i fynediad, darparu ar gyfer twristiaid, a thrwy greu cyfleoedd dysgu a gwirfoddoli, gallant lwyddo i gyflawni eu nodau. Rhaid i amgueddfeydd ddangos eu bod yn rhan berthnasol a gweithredol o'r cynnig diwylliannol sydd ar gael yng Nghymru.

Mae nifer yr ymweliadau corfforol ag amgueddfa yn un o'r prif linyn mesur sy'n dangos pa mor llwyddiannus yw amgueddfa benodol a lefel ei phoblogrwydd ymhlith y cyhoedd. Mae'n arwydd allweddol o lwyddiant. Fodd bynnag, rhaid ystyried nifer yr ymwelwyr yng nghyd-destun maint a chwmpas amgueddfa.


Mae amgueddfeydd yn rhan allweddol o'r arlwy twristiaeth yng Nghymru ac mae ymchwil wedi dangos bod ymwelwyr, sy'n aros ac yn ymweld am y dydd, yn rhoi amgueddfeydd fel un o'r prif resymau dros eu hymweliad.

- Mae'r dadansoddiad o niferoedd ymwelwyr yn defnyddio dwy set o ffigurau. Mae'r cyfartaledd yn seiliedig ar yr holl ymatebion a dderbyniwyd, tra bod y cyfansymiau yn seiliedig yn unig ar amgueddfeydd a gyflwynodd niferoedd eu hymwelwyr am bob blwyddyn o 2015-2019.
- Cynyddodd cyfanswm yr ymweliadau â'r amgueddfeydd a ymatebodd 22.9% yn ystod y cyfnod i 4.69 miliwn dros y cyfnod. Cynyddodd yr ymweliadau â'r grŵp craidd hefyd, ond nid cymaint, ar 20.7%, i 2.82 miliwn.
- Mae'r canlyniad cyffredinol yn cuddio rhai amrywiadau sylweddol rhwng gwahanol fathau o amgueddfeydd. Roedd y ffigwr uchaf o ymwelwyr ychydig o dan 600,000, tra bod yr isaf o dan 1,000.
- Gwelwyd y cynnydd mwyaf o 31.2% i 1.59 miliwn mewn ymweliadau ag amgueddfeydd lleol (nad ydynt yn rhai cenedlaethol nac yn perthyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol). Cynyddodd yr ymweliadau ag Amgueddfa Cymru hefyd, 19% i 1.95 miliwn. Cynyddodd yr ymweliadau ag eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd, 19.1% i 1.16 miliwn.
- Mae'r ffigurau hyn yn amlygu darlun cymhleth, sy'n dangos nad yw niferoedd ymweliadau bob amser yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn a bod amrywiadau yn normal. Mae ystod eang o ffactorau negyddol a chadarnhaol i gyfrif am hyn. Mae golwg hirdymor ar dueddiadau ymwelwyr yn bwysig yn hytrach na chymhariaeth or-syml o flwyddyn i flwyddyn.
- Nid yw'n syndod bod yr amgueddfeydd oedd â niferoedd uwch o ymwelwyr yn tueddu i ddarparu lefelau uwch o wasanaeth, patrwm oedd yn gyson ar draws yr holl ddatganiadau ystod. Yr amgueddfeydd sydd â'r niferoedd uwch o ymwelwyr fel arfer sydd â'r lefel uchaf o staff, capasiti ac adnoddau.
- Gofynnwyd hefyd i'r amgueddfeydd gadarnhau a oedd y niferoedd ymwelwyr a ddarparwyd yn rhai gwirioneddol neu yn amcangyfrifon. Roedd yr ymatebion gan amgueddfeydd unigol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn dros y cyfnod, ond mae rhwng 71% ac 81% o'r amgueddfeydd yn cofnodi union nifer yr ymwelwyr bob blwyddyn.


*Ffigur 7: Cyfanswm yr ymweliadau â phob amgueddfa 2015-19*




*Ffigur 8: Cyfanswm yr ymweliadau â phob amgueddfa a grŵp craidd 2015-19*




*Ffigur 9: Cyfartaledd ymweliadau yn ôl math o amgueddfa*



# 11. Effaith Economaidd ymweliadau ag amgueddfeydd

Mae amgueddfeydd yn gwneud cyfraniad pwysig i economi Cymru yn ogystal ag economi leol amgueddfa. Maent yn denu pobl leol a thwristiaid ac yn ennyn gwariant gan ymwelwyr. Mae'r gwariant hwn o fudd i fusnesau eraill, yn enwedig yn y diwydiant lletygarwch a darparwyr llety. Roedd adroddiad 2015, drwy ddefnyddio'r data a ddarparwyd gan amgueddfeydd, wedi cyfrif yr effaith economaidd drwy ddefnyddio Pecyn Cymorth Effaith Economaidd Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol. Diweddarwyd pecyn cymorth[3] y Gymdeithas hon yn 2019. Mae'r pecyn cymorth yn darparu fformiwlâu ymwelwyr, fformiwla nwyddau a gwariant, a fformiwla cyflogaeth. Mae'n gymorth i'r amgueddfeydd fynegi effaith yr ymweliadau â'u hamgueddfeydd o ran gwerth economaidd.

- Drwy ddefnyddio'r pecyn cymorth, cyfrifwyd mai'r gwerth economaidd gros yn 2014 oedd £82,780,467

Diwygiwyd y pecyn cymorth yn 2019, ond yn anffodus dim ond 8 amgueddfa â'i defnyddiodd i bennu eu cyfraniad a'u heffaith ar eu heconomi leol yn Sbotolau 2020. I gael amcangyfrif o'r cyfraniad cyffredinol y mae amgueddfeydd yn ei wneud i economi Cymru, rydym wedi cyfrif gwariant ymwelwyr drwy ddefnyddio dim ond fformiwla pecyn cymorth y Gymdeithas ar wariant ymwelwyr lleol o'r tablau sirol a ddarparwyd. Ni wnaethom gynnwys y fformiwla nwyddau na'r fformiwla cyflogaeth. Hefyd rydym wedi defnyddio'r fformiwla ymwelwyr fel pe bai'r holl ymwelwyr yn bobl leol yn hytrach na chymryd cyfran fel ymwelwyr dydd neu ymwelwyr dros nos, y ddau ohonynt yn gwario mwy[4]. Roedd hyn yn osgoi'r gwaith o ddyfalu canran y mathau o ymwelwyr. Mae hyn yn rhoi ffigur ceidwadol fel llinell sylfaen, sy'n arwydd o'r cyfraniad economaidd lleiaf y mae amgueddfeydd yn ei wneud.

- Dangosodd yr 8 a ddefnyddiodd y pecyn cymorth llawn eu bod, rhyngddynt, wedi cyfrannu £10,884,319 miliwn at eu heconomi lleol.
- Drwy ychwanegu'r amcangyfrifon sylfaenol at y rhai a gwblhawyd gan yr 8 amgueddfa, cawn gyfanswm gwariant ymwelwyr a chyfraniad economaidd o £134 miliwn a mwy ar gyfer Sbotolau 2020.
- Cyfrannodd yr amgueddfa leiaf gyda dim ond 200 o ymwelwyr bron i £4,000, tra bod y grŵp o amgueddfeydd Cenedlaethol wedi cyfrannu £83 miliwn. Roedd safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ar sail y gwariant ymwelwyr lleol, wedi cyfrannu o leiaf £17 miliwn i economi Cymru.

[3] https://www.aim-museums.co.uk/wp-content/uploads/2019/10/Economic-Impact-Toolkit-2019.pdf


[4] Mae gwariant ymwelwyr ar gyfer Sir Benfro er enghraifft yn rhoi gwariant ymwelwyr lleol o £17.26, ymwelydd dydd £34.53, a dros nos £53.83

# 12. Ymgysylltu ar-lein

Gofynnodd yr arolwg a oedd gan amgueddfeydd eu gwefan eu hunain. Roedd y cwestiwn yn syml ie neu na, felly nid oedd data ansoddol gennym ynghylch maint nac ansawdd y wybodaeth, yn enwedig o ran y casgliadau. Gofynnwyd iddynt hefyd ddarparu data ar nifer yr ymwelwyr â'u gwefan. Gofynnwyd iddynt hefyd am y cyfryngau cymdeithasol a nifer y tanysgrifwyr/dilynwyr i wahanol lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol.


- Roedd gan 95% o amgueddfeydd eu gwefannau eu hunain ac roedd 87% yn defnyddio llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd y ffigurau ychydig yn is nag adolygiad Sbotolau 2015.
- Roedd y ffigurau ar gyfer ymweliadau â gwefannau, sef 3,276836, i lawr o 3,871,624 yn 2015, tra bod tanysgrifwyr/dilynwyr y cyfryngau cymdeithasol i fyny o 236,293 i 591808, cynnydd mwy na dwbl.

*Ffig 10: Nifer yr ymwelwyr â'r wefan ar gyfartaledd yn ôl maint amgueddfa yn 2018/19*





Mae'r ymweliadau â gwefannau amgueddfeydd mawr yn sylweddol is nag yn 2015. Mae sawl rheswm posibl, all fod yn chwyddo canlyniadau 2015. Mae chwiliadau heddiw am wybodaeth sylfaenol megis oriau agor neu ffioedd mynediad yn cael eu "rhyng-gipio" gan beiriannau chwilio sy'n cynnig y wybodaeth honno heb yr angen am ymweld â gwefan yr amgueddfa.

*Ffig 11: Nifer cyfartalog y tanysgrifwyr cyfryngau cymdeithasol yn ôl maint amgueddfa yn 2018/19*




*Ffig 12: Nifer cyfartalog y tanysgrifwyr cyfryngau cymdeithasol yn ôl maint amgueddfa yn 2018/19*



# 13. Ymgysylltu Addysgol

Gofynnwyd i'r amgueddfeydd ddarparu data ar nifer y sesiynau a'r cyfranogwyr ar draws gweithgareddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Mae dysgu ac addysg yn swyddogaethau pwysig i bob amgueddfa.


*Tabl 1*

| | 2020 | 2015 |
|---|---:|---:|
| Sesiynau ffurfiol | 10,994 | 8,071 |
| Cyfranogwyr | 299,655 | 318,319 |
| Sesiynau anffurfiol | 21,963 | 3,622 |
| Cyfranogwyr | 647,905 | 314,253 |
| **Pob sesiwn** | **32,957** | **11,693** |
| Y ffigur a ddangosir yn adroddiad 2015 heb ei gefnogi gan y data crai | | 11,597 |
| **Pawb sy'n cymryd rhan** | **947,560** | **632,572** |
| Y ffigur a ddangosir yn adroddiad 2015 heb ei gefnogi gan y data crai | | 625,578 |


Rydym wedi ail-archwilio'r data crai a ddarparwyd ar gyfer ffurflenni 2015. Ail-gyfrifwyd y cyfansymiau drwy grynhoi'r data crai ar gyfer y math o amgueddfa. Crëwyd ffigurau gwahanol ar gyfer 2015 i'r hyn a adroddwyd. Rydym wedi dangos ein cyfansymiau mewn du uchod a'r niferoedd a ddyfynnwyd yn adroddiad 2015 mewn coch uchod.

- Roedd yr amgueddfeydd wedi darparu 32,957 o sesiynau a gweithgareddau dysgu oedd yn cynnwys 947,560 o gyfranogwyr yn Sbotolau 2020.
- Er bod mwy o sesiynau dysgu ffurfiol wedi'u cynnal yn 2019, roedd nifer y cyfranogwyr wedi gostwng o gymharu â 2015. Fodd bynnag, roedd nifer y sesiynau anffurfiol a chyfranogwyr lawer iawn yn uwch yn 2019 nag yn 2015.
- Gall y cynnydd mewn sesiynau dysgu anffurfiol amlygu'r newidiadau ariannol gyda gostyngiad mewn cyllid craidd ar gyfer addysgu ffurfiol yn cael ei ddisodli gan brosiectau a gweithgareddau dysgu a mynediad gyda chymorth grant.

*Ffigur 13: Lefelau gwasanaeth cyfartalog y ddarpariaeth ddysgu yn ôl y math o amgueddfa*




*Ffigur 14: Lefelau gwasanaeth cyfartalog y ddarpariaeth ddysgu yn ôl maint amgueddfa*




## 13.1 Allgymorth addysgol

Mae nifer o amgueddfeydd yn darparu gweithgareddau dysgu y tu allan i'r amgueddfa, yn aml yng nghanol cymunedau. Nid oes gan bob cymuned fynediad hawdd i adeilad yr amgueddfa ac mae allgymorth yn gyfle i'r amgueddfa estyn allan ac ymgysylltu â'r cymunedau hyn.

- Cynhaliodd amgueddfeydd Cymru 2,780 o sesiynau allgymorth yn 2020 yn cynnwys 121,381 o gyfranogwyr.
- Er bod nifer y sesiynau wedi cynyddu yn 2015, roedd nifer y cyfranogwyr ychydig yn is.
- Nid oedd 32 o amgueddfeydd, sef 38% o'r holl ymatebwyr, wedi cynnal unrhyw weithgareddau allgymorth.

*Tabl 2*

| | 2020 | 2015 |
|---|---|---|
| Sesiynau oddi ar y safle | 2,780 | 2,419 |
| Cyfranogwyr | 121,381 | 124,992 |

# 14. Llesiant

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i nodau allweddol yw'r sail i Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, ac mae'n elfen allweddol o'r fframwaith polisi y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio iddo. Mae'r Ddeddf yn cydnabod nad rôl i'r sector gofal sylfaenol yn unig yw iechyd a lles ond i ystod o ddarparwyr gan gynnwys amgueddfeydd. Gosodwyd sawl cwestiwn yn Sbotolau i edrych ar y cyfraniad yr oedd amgueddfeydd yn ei wneud at lesiant. Yn anffodus, dim ond 13 amgueddfa ddywedodd eu bod wedi defnyddio Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Amgueddfeydd yr UCL. Fodd bynnag, roedd y rhai wnaeth ddefnyddio'r pecyn i gyd yn gallu dangos gwelliant yn llesiant eu hymwelwyr. Nododd rhai welliannau mor uchel â 42%, gyda'r mwyafrif o gwmpas yr 20%.

- Mae 23 o'r amgueddfeydd yn cymryd rhan yn y rhaglen Cyfuno yn eu hardaloedd, sef 27% o'r ymatebwyr
- Mae 44 o'r ymatebwyr neu 52% o Amgueddfeydd Cymru yn cynnig gweithgareddau cyfeillgar i ddementia
- Dim ond 20% o amgueddfeydd Cymru y gofynnwyd iddynt gyflwyno data i'w hawdurdod lleol/corff cyhoeddus fel rhan o adroddiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

### Tri Trysor a Ddarganfuwyd yn Sir Gaerfyrddin

Daeth dwy fodrwy a chelc o'r Oes Efydd i feddiant Cydweli drwy'r prosiect Cymru gyfan *Hel Trysorau; Hel Straeon* a ariannwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Roedd y prosiect yn bartneriaeth rhwng Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru ac Amgueddfa Cymru. Mae'r llun yn dangos modrwy gariad aur 'posy' Ôl-ganoloesol, Cymuned Llangyndeyrn. Roedd y modrwyau hyn yn arwyddion serch hynod boblogaidd ac yn aml yn cael eu cyfnewid fel anrhegion dyweddïo neu briodas. Mae wyneb mewnol yr enghraifft hon o ddiwedd yr 17eg ganrif neu ddechrau'r 18fed ganrif wedi'i ysgythru â'r geiriau + I · AM · EVER · ONE.

*Llun drwy Amgueddfa Sir Gaerfyrddin/Amgueddfa Cymru ©*




# 15. Amgueddfeydd a chydraddoldeb

Mae gan amgueddfeydd rôl bwysig i'w chwarae o ran cefnogi cydraddoldeb, nid yn unig yn y gymdeithas ond drwy eu cynulleidfaoedd, eu casgliadau, eu trefniadaeth a'u gweithlu. Gall amgueddfeydd fynd i'r afael â chydraddoldeb drwy arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau sydd wedi'u rhaglennu. Gofynnwyd i'r amgueddfeydd a oeddent wedi darparu ar gyfer y 14 maes cydraddoldeb a glustnodir, ac ymatebodd 78 yn gadarnhaol. O'r 7 nad oedd yn darparu unrhyw beth penodol, roedd un yn storfa oddi ar y safle, ac roedd sawl un ar gau am resymau adnewyddu neu resymau eraill.


- Cynhaliodd bron pob amgueddfa arddangosfeydd, digwyddiadau neu weithgareddau wedi'u targedu ar gyfer grwpiau gan gynnwys gwahanol oedran, LGBTQI, defnyddwyr a dysgwyr y Gymraeg, grwpiau menywod, amrywiol grefyddau a grwpiau credo, anableddau, cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

## 15.1 Amgueddfeydd ac archwiliadau mynediad

Gofynnwyd i'r amgueddfeydd, ers arolwg Sbotolau 2015, a yw'r amgueddfa wedi cynnal archwiliad mynediad gydag adroddiad ffurfiol ac argymhellion. Yn 2015, roedd 67% o amgueddfeydd wedi cynnal archwiliad mynediad llawn, ond dim ond 40% oedd wedi cynnal un yn ystod y 3 blynedd diwethaf. Roedd y canran hwn wedi disgyn i 30% yn 2019. Mae'r safon Achredu yn ei gwneud yn ofynnol i amgueddfeydd gynnal archwiliad mynediad llawn bob 5 mlynedd, felly mae hwn yn fater o bwys.





*Ffigur 15: Darpariaeth ar gyfer gwahanol feysydd cydraddoldeb yn ôl math o amgueddfa*



# 16. Casgliad i'r Genedl

Mae'r lefelau gofal a rheoli casgliadau wedi cael eu monitro ers 2011. Yn 2011 ac yn 2015 roedd y lefelau wedi aros ar gyfartaledd o 4.3. Yn anffodus, mae'r lefel, er ei bod yn dal yn dda, wedi gostwng i 4.1 yn 2019.

*Ffig 16: Lefelau gwasanaeth cyffredinol cyfartalog ar gyfer defnyddwyr amgueddfeydd*





## 16.1 Caffael a gwaredu eitemau yn ddiweddar

Daeth 12,081 o eitemau i feddiant amgueddfeydd yng Nghymru, sy'n parhau â thuedd ar i lawr o 2015, pan oedd yn 12,984. Yn 2011 y ffigur oedd 249,597, sydd angen ei gwestiynu o edrych yn ôl.

- Yn 2019 roedd amgueddfeydd yng Nghymru yn gofalu am 6,275,185 o wrthrychau
- Dim ond 32% o amgueddfeydd ddywedodd bod cyfran sylweddol o'u casgliad ar gael ar-lein

## 16.2 Storio




- Dywedodd nifer cynyddol o amgueddfeydd, 61%, bod eu storfeydd eisoes yn orlawn ac mae gan 27% arall o amgueddfeydd storfeydd fydd yn llawn erbyn 2026

*Tabl 3*

| | Caffael | | Gwaredu | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Prynu | Anrhegion | Anrhegion | Gwerthu | Dinistrio |
| **Amgueddfa Cymru** | 169 | 5,205 | 0 | 0 | 0 |
| **Heblaw cenedlaethol** | 228 | 6,479 | 3 | 0 | 76 |


# 17. Gweithio'n Effeithiol

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar sut mae amgueddfeydd yn cael eu rhedeg, gan edrych ar y gweithlu, polisi a chynllunio, adeiladau a chyllid.

## 17.1 Polisi a Chynllunio

Mae Tabl 3-6 yn adran 7 *Safonau Ymarfer Amgueddfeydd* yn dangos bod lefelau gwasanaeth yn parhau i fod yn uchel, ond maent wedi gostwng ers 2015.

*Ffigur 17: Effaith polisi a chynllunio ar lefelau gwasanaethau eraill*



## 17.2 Gweithlu a Gwirfoddolwyr

Gofynnwyd i'r amgueddfeydd ddarparu niferoedd cyffredinol y bobl yn eu gweithlu, boed yn gyflogedig neu'n wirfoddol, ac a oeddent yn llawn amser, yn rhan amser neu'n dymhorol. Yn y bôn, mae'r ffigurau'n dangos bod y cynnydd yn y gweithlu mewn amgueddfeydd i'w briodoli i'r twf yn y sylfaen gwirfoddolwyr. Mae hyn nid yn unig o ran nifer y gwirfoddolwyr ond hefyd o ran yr oriau a gyfrannwyd ganddynt mewn gwirionedd. Er bod rhai amgueddfeydd wedi colli staff, mae rhai wedi cynyddu nifer y staff ac, ar ôl pwyso a mesur, ychydig iawn o newid sydd wedi bod yn nifer y staff cyflogedig cyfwerth ag amser llawn ers 2015.

- Mae 4,235 o wirfoddolwyr yn ffurfio 72% o'r gweithlu, i fyny o 66% yn Sbotolau 2015
- Cyfrannwyd 404,676 o oriau gan wirfoddolwyr yn 2020, cynnydd sylweddol o 177,815 o oriau yn 2015
- Mae 5,841 o bobl yn gweithio mewn amgueddfeydd yng Nghymru, ychydig yn llai nag yn 2015
- Roedd 1,606 o staff cyflogedig mewn amgueddfeydd gyda 991 yn gyfwerth ag amser llawn

*Tabl 4*

| | Gwirfoddolwyr | Oriau gwirfoddolwyr | Cyflogedig | Cyflogedig CALl | Cyfanswm y Staff | % gwirfoddolwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amgueddfa Cymru** | 1,134 | 29,507 | 838 | 543 | 1,972 | 57.5% |
| **Annibynnol** | 1,112 | 161,198 | 160 | 77.18 | 1,272 | 87.4% |
| **Awdurdod Lleol** | 434 | 34,649 | 263.5 | 140.38 | 697.5 | 62.2% |
| **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** | 1,555 | 179,322 | 345 | 231.12 | 1,900 | 81.8% |
| **Cyfanswm terfynol** | **4,235** | **404,676** | **1,606.5** | **991.68** | **5,841.5** | **72.5%** |

*Tabl 5*

| Grŵp craidd | Gwirfoddolwyr | Oriau gwirfoddolwyr | Cyflogedig | Cyflogedig CALl | Cyfanswm y Staff | % gwirfoddolwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amgueddfa Cymru** | 1,114 | 28,244 | 781 | 510 | 1,895 | 58.8% |
| **Annibynnol** | 631 | 107,371 | 85 | 41 | 716 | 88.1% |
| **Awdurdod Lleol** | 243 | 18,986 | 170.5 | 101.34 | 413.5 | 58.8% |
| **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** | 171 | 30,404 | 64 | 39.12 | 235 | 72.8% |
| **Cyfanswm terfynol** | **2,159** | **185,005** | **1,100.5** | **691.46** | **3,259.5** | **66.2%** |

*Tabl 6*

| Dadansoddiad CALl fesul rôl | Blaen y tŷ | Curadurol | Cadwraeth | Mynediad/ Addysg | Rheolaeth/ Cyngor | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2018/19** | 514.69 | 139.26 | 112.89 | 114.78 | 139.99 | 346.9 |


*Tablau 7 ac 8: Cyfanswm gweithlu pob amgueddfa yn ôl math o gyflogaeth*

| Pob amgueddfa | Gwirfoddolwyr | Staff cyflogedig |
|---|---|---|
| 2010 | 2,118 | 1,317 |
| 2013/14 | 2,300 | 1,196 |
| 2018/19 | 4,235 | 1,606 |


| Grŵp craidd | Gwirfoddolwyr | Staff cyflogedig |
|---|---|---|
| 2010 | 792 | 962 |
| 2013/14 | 1,409 | 924 |
| 2018/19 | 2,159 | 1,100 |

Y nifer a ddangosir yma yw nifer y bobl a gyflogir yn hytrach na CALl.


*Ffigur 18: Lefelau cyfartalog y gweithlu yn ôl math o amgueddfa*





*Ffigur 19: Lefelau cyfartalog y gweithlu yn ôl maint yr amgueddfa*



*Ffigur 20: Oriau gwirfoddolwyr ar gyfartaledd a gyfrannwyd fesul gwirfoddolwr yn ôl maint yr amgueddfa*




*Ffigur 21: Oriau gwirfoddolwyr ar gyfartaledd a gyfrannwyd fesul gwirfoddolwr yn ôl math o amgueddfa*



# 18. Cyllid

Rhoddir gwybodaeth gyllidebol gyfartalog am fod sawl amgueddfa yn gweithredu cyllidebau canolog sy'n cwmpasu sawl safle. Gall rhai elfennau cyllidebol gael eu gweithredu'n ganolog ond gall eraill gael eu datganoli i safleoedd unigol. Gall fod yn anodd dwyn ynghyd wybodaeth ariannol gyson o blith grwˆp mor amrywiol o amgueddfeydd, sydd yn aml â dulliau cyfrifyddu a blynyddoedd ariannol gwahanol. Felly, dylid darllen gwybodaeth ariannol fel gwybodaeth ddangosol.

*Tabl 9: Cyllideb gyfartalog yn ôl math o amgueddfa*

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amgueddfa Cymru** | £3,421,644 | £3,383,501 | £3,229,723 | £3,281,866 | £3,621,866 |
| **Annibynnol** | £134,650 | £103,244 | £108,310 | £111,144 | £110,679 |
| **Awdurdod Lleol** | £211,677 | £198,160 | £221,720 | £216,503 | £220,986 |
| **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** | £259,473 | £276,867 | £338,800 | £364,565 | £382,846 |

- Daeth cyfanswm y cyllidebau i £40 miliwn a mwy y flwyddyn

## 18.1 Incwm

Gyda'r hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae amgueddfeydd yn ceisio cynhyrchu incwm ac arallgyfeirio fwyfwy lle bo modd er mwyn cefnogi eu gweithrediadau. Mae taliadau mynediad yn ffynhonnell bwysig o incwm i lawer o amgueddfeydd. Fodd bynnag, dim ond un o blith nifer o ffrydiau incwm yw hyn ac mae llawer o amgueddfeydd yn parhau i ddarparu mynediad am ddim.

Roedd 46 o'r amgueddfeydd neu 54% o'r ymatebwyr yn ddi-dâl ar y pwynt mynediad.

*Tabl 10*

| | Codir tâl mynediad | Di-dâl | Weithiau / tymhorol |
|---|---|---|---|
| **Amgueddfa Cymru** | - | 7 | - |
| **Annibynnol** | 18 | 16 | 1 |
| **Awdurdod Lleol** | 6 | 23 | 1 |
| **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** | 13 | - | - |

*Tabl 11: Incwm a enillwyd*


| | Dim taliadau ychwanegol | Arddangosfeydd dros-dro / arbennig | Digwyddiadau | Ymweliadau addysg ffurfiol | Sgyrsiau | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amgueddfa Cymru** | 6 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Annibynnol** | 11 | 2 | 15 | 12 | 18 | 5 |
| **Awdurdod Lleol** | 8 | 2 | 17 | 15 | 12 | 8 |
| **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** | 3 | 0 | 10 | 3 | 2 | 0 |

*Tablau 12 ac 13: Nifer yr amgueddfeydd sy'n cofnodi incwm ychwanegol*


| | Incwm mynediad | Incwm a enillir | Incwm rhoddion | Incwm arall wedi'i gyfrannu |
|---|---|---|---|---|
| **Amgueddfa Cymru** | | | | |
| **Annibynnol** | 18 | 27 | 29 | 18 |
| **Awdurdod Lleol** | 9 | 21 | 18 | 6 |
| **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** | 13 | 13 | 11 | 7 |

| | Incwm mynediad | Incwm a enillir | Incwm rhoddion | Incwm arall wedi'i gyfrannu |
|---|---|---|---|---|
| **Amgueddfa Cymru** | | | | |
| **Annibynnol** | £508,488 | £713,513 | £392,468 | £42,914 |
| **Awdurdod Lleol** | £315,027 | £387,180 | £13,654 | £40,606 |
| **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** | £751,538 | £2,435,925 | £68,812 | £77,703 |

Ers arolwg 2015, mae cymorth awdurdodau lleol i amgueddfeydd annibynnol wedi:




Os yw'r amgueddfa yn cael cymorth, ar ba ffurf y mae hyn?



*Tabl 14: Ffynonellau Incwm pob amgueddfa yn ôl math*

| | Derbyniadau | Arall a enillwyd | Cyllid cyhoeddus / grant | Rhoddion | Arall a gyfrannwyd | Grant refeniw / incwm prosiect | Grant cyfalaf / incwm prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amgueddfa Cymru** | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Annibynnol** | £670,650 | £1,323,920 | £637,815 | £576,473 | £121,772 | £454,059 | £1,977,823 |
| **Awdurdod Lleol** | £378,729 | £978,642 | £3,908,094 | £46,171 | £379,078 | £697,226 | £9,600 |
| **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** | £2,074,799 | £5,511,657 | £370,000 | £212,650 | £607,029 | £54,000 | £0 |
| **Cyfanswm terfynol** | **£3,124,178** | **£7,814,219** | **£4,915,909** | **£835,294** | **£1,107,879** | **£1,205,285** | **£1,987,423** |

## Sain Ffagan – Amgueddfa'r Flwyddyn y Gronfa Gelf

Yn 2019 cwblhaodd Sain Ffagan brosiect mawr gwerth £30 miliwn i drawsnewid profiad yr ymwelydd drwy gael orielau newydd a chanolfan ddysgu yn y prif adeilad, ac ail-greu llys canoloesol, Llys Llywelyn, a chael Gweithdy, canolfan ar gyfer creadigrwydd, ar y safle.

Y nod oedd creu hanes 'gyda' phobl yn hytrach nag 'ar gyfer' pobl. Parhaodd yr Amgueddfa ar agor drwy gydol y datblygiad, gan groesawu 3 miliwn o ymwelwyr i gael golwg ar y newidiadau wrth iddynt ddigwydd. Roedd rhaglen gyhoeddus ddychmygus wedi ymgysylltu â 720,0000 o bobl wrth lywio'r trawsnewid. Am y dull arloesol hwn roedd Sain Ffagan wedi ennill gwobr y Gronfa Gelf am Amgueddfa'r Flwyddyn yn 2019.

*Llun drwy Amgueddfa Cymru - National Museum Wales ©*




# 19. Amgueddfeydd Lleol ac Amgueddfa Cymru

*Tablau 15 ac 16: Gwasanaeth a ddarperir gan Amgueddfa Cymru*

| | Cyngor cadwraeth | Gwasanaethau addysg | Gwybodaeth ar ymchwil | Cyngor ar gasgliadau | Benthyg gwrthrychau | Cyngor diogelwch | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amgueddfa Cymru** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 |
| **Annibynnol** | 9 | 1 | 4 | 10 | 8 | 4 | 3 |
| **Awdurdod Lleol** | 18 | 1 | 9 | 17 | 19 | 7 | 5 |
| **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** | 2 | 0 | 0 | 4 | 3 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm terfynol** | **29** | **2** | **13** | **31** | **30** | **11** | **14** |

| | Cyngor cadwraeth | Gwasanaethau addysg | Gwybodaeth ar ymchwil | Cyngor ar gasgliadau | Benthyg gwrthrychau | Cyngor diogelwch | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mawr** | 4 | 1 | 3 | 6 | 7 | 2 | 6 |
| **Canolig** | 10 | 1 | 7 | 13 | 12 | 5 | 5 |
| **Bach** | 15 | 0 | 3 | 12 | 11 | 4 | 3 |
| **Cyfanswm terfynol** | **29** | **2** | **13** | **31** | **30** | **11** | **14** |

Y cymorth mwyaf cyffredin a gafodd amgueddfeydd lleol oedd cyngor ar gasgliadau, cyngor cadwraeth a benthyg gwrthrychau.



# Atodiad A. Rhestr o'r amgueddfeydd a ymatebodd

| Amgueddfa | |
|---|---|
| Tŷ Aberconwy | *Craidd* |
| Amgueddfa Y Fenni | *Craidd* |
| Amgueddfa ac Oriel Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth | *Craidd* |
| Amgueddfa Ceredigion | *Craidd* |
| Amgueddfa Forwrol Llŷn | |
| Amgueddfa Lloyd George | *Craidd* |
| Amgueddfa Cerflunwaith Andrew Logan | |
| Sefydliad y Morwyr, y Bermo | *Craidd* |
| Amgueddfa Lofaol Cymru Big Pit | *Craidd* |
| Storfa a Chasgliad Amgueddfa Castell Cil-y-coed | |
| Amgueddfa Sir Gaerfyrddin | *Craidd* |
| Amgueddfa Criced Cymru CC4 | |
| Amgueddfa Cas-gwent | *Craidd* |
| Castell a Gerddi y Waun | |
| Toll-bont Conwy | *Craidd* |
| Amgueddfa ac Oriel Ysgol Gelf Castell Cyfarthfa | *Craidd* |
| Amgueddfa Cwm Cynon | |
| Dinefwr | |
| Erddig | |
| Amgueddfa Llinell Danio Gwarchodlu Dragŵn y Frenhines a'r Cymry Brenhinol | |

### Taith Addysgol ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda yn ennill Gwobr Sandford

"Mae'r tîm dysgu yn cynnig profiad dysgu rhagorol sy'n cyflwyno dealltwriaeth fanwl o wyddoniaeth a hanes y diwydiant glo yng Nghwm Rhondda, a golwg hynod deimladwy ar fywyd dan ddaear a'r materion cymdeithasol a gwleidyddol ehangach a effeithiodd ar y gymuned.

Mae gan y rhaglen ddysgu hefyd y gallu i atgyfnerthu ymdeimlad plant lleol o'u rolau fel dinasyddion byd-eang, ac o gyfraniad pwysig eu cymuned i'r byd." *Christine Chadwick, Ymgynghorydd Treftadaeth a Beirniad Gwobr Sandford*

*Llun drwy garedigrwydd Parc Treftadaeth Cwm Rhondda / Gwasanaeth Treftadaeth CBS RhCT ©*



| | |
|---|---|
| Oriel Gelf Glynn Vivian | *Craidd* |
| Dyffryn Maes Glas | *Craidd* |
| Gwefr heb Wifrau / Wireless in Wales | |
| Amgueddfa Forol Caergybi | *Craidd* |
| Amgueddfa Bŵer Tân Mewnol | |
| Bwthyn Gweithwyr Haearn Joseph Parry | *Craidd* |
| Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli | *Craidd* |
| Amgueddfa Llandudno | *Craidd* |
| Llanerchaeron | |
| Amgueddfa a Llyfrgell Llanidloes | *Craidd* |
| Amgueddfa Treftadaeth a Morwrol Aberdaugleddau | |
| Amgueddfa Trefynwy | *Craidd* |
| Amgueddfa Caerdydd | |
| Amgueddfa Celf Fodern (MOMA), Machynlleth | |
| Amgueddfa Cyflymder, Pentywyn | *Craidd* |
| Tŷ a Gerddi Nantclwyd y Dre | |
| Gweithfeydd ac Amgueddfa Tsieina Nantgarw | |
| Amgueddfa Arberth | *Craidd* |
| Amgueddfa Rheilffordd Llain Gul | *Craidd* |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru Caerdydd | *Craidd* |
| Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru | *Craidd* |
| Amgueddfa Lechi Cymru | *Craidd* |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol - Castell Penrhyn | *Craidd* |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol Plas Newydd | |
| Amgueddfa Genedlaethol y Glannau | |
| Amgueddfa Wlân Cymru | *Craidd* |
| Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd Craidd | |
| Amgueddfa Tecstilau y Drenewydd | |
| Amgueddfa Old Bell | *Craidd* |
| Oriel Môn | *Craidd* |
| Amgueddfa Parc Howard | *Craidd* |
| Amgueddfa Penmaenmawr | |
| Bwthyn Penrhos | *Craidd* |
| Plas Glyn y Weddw | |
| Plas Newydd | |
| Plas yn Rhiw | *Craidd* |
| Amgueddfa Pontypridd | *Craidd* |
| Amgueddfa Porthcawl | *Craidd* |
| Castell a Gardd Powis | |
| Amgueddfa Sir Faesyfed | *Craidd* |
| Amgueddfa ac Oriel Rhaeadr | |
| Parc Treftadaeth y Rhondda | |
| Rheilffordd Fachan Y Rhyl | |
| Amgueddfa Rhyl | |
| Amgueddfa Robert Owen | *Craidd* |
| Amgueddfa'r Bathdy Brenhinol | |
| Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig | *Craidd* |
| Carchar Rhuthun | |
| Maenordy Scolton | *Craidd* |
| Canolfan Dreftadaeth Heddlu De Cymru | |
| Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan | *Craidd* |
| Storiel | |
| Amgueddfa Abertawe | *Craidd* |
| Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych- y-pysgod | *Craidd* |
| Y Ganolfan Eifftaidd | *Craidd* |
| Llety'r Barnwr | *Craidd* |
| Amgueddfa Gatrodol Brenhinol Cymreig | *Craidd* |
| Ymddiriedolaeth Amgueddfa Tor-faen | *Craidd* |
| Tŷ Tredegar | |
| Tŷ'r Masnachwr Tuduraidd | |
| Tŷ Mawr Wybrnant | *Craidd* |
| Tŷ Weindio | |
| Amgueddfa ac Archifau Bwrdeistref Sirol Wrecsam | *Craidd* |
| Y Gaer (Brycheiniog) | *Craidd* |
| Y Lanfa / The Wharf: Amgueddfa Powysland | |
| Llyfrgell y Trallwng | *Craidd* |


AR AGOR
OPEN
It's
Free

SBOTOLAU

Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru

The Federation of Museums and Art Galleries of Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government